**DIOGELWCH AR DDIWEDD Y DYDD**
**Caniatâd gan riant i blentyn gerdded adref o'r ysgol ar ei ben ei hun**

Annwyl rieni,

Yn arferol, gofynnwn i bob rhiant neu warchodwr ddod at yr ysgol i gasglu'u plentyn fel ein bod yn trosglwyddo pob plentyn i oedolyn yn saff. Ond gyda chaniatâd penodol gallwn ollwng disgyblion B3 ac hŷn o'r ysgol i fynd gartref eu hunain.

Os y tybiwch fod eich plentyn yn ddigon hen a chyfrifol i fynd o'r ysgol ar ei ben ei hun, a bod y daith o'r ysgol yn un rhesymol a diogel i blentyn ei dilyn; bydd angen i chi arwyddo'r llythyr yma sydd yn rhoi caniatâd i ni ollwng y plentyn o'r ysgol, a'ch bod chi yn cymryd llawn gyfrifoldeb am ddiogelwch y plentyn am ei holl daith gartref.
Yr unig beth fydd yr ysgol yn ei wneud fydd sicrhau bod y plentyn wedi croesi'r ffordd o giât yr ysgol os yw angen.

Mae'n hanfodol i chi ddod at y giât cyn 3.15pm neu gysylltu a'r ysgol os oes newid i'r trefniant yma. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno gyda'r cais hwn i sicrhau diogelwch pob plentyn.

Manon Haf Owen

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Rhoddaf ganiatâd i _____ gerdded gartref o'r ysgol ar ei ben ei hun. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb llawn am ddiogelwch y plentyn ar y daith gartref.

Os oes newid i'r trefniadau byddaf yn sicrhau y bydd oedolyn wrth giât yr ysgol cyn 3.15pm i'w gasglu.

Arwyddwyd: _____ (rhiant/gwarcheidwad) Dyddiad: _____